north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**14/05/2021**

**Teitl:** Adroddiad Alldro a Ffurflen Flynyddol 2020/21

**Awdur:** Dafydd L. Edwards, Swyddog Cyllid Statudol yr Awdurdod Lletya
Sian Pugh, Cyfrifydd Grŵp yr Awdurdod Lletya

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol 2020/21 i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a chael cymeradwyaeth i'r Ffurflen Flynyddol Swyddogol ar gyfer 2020/21.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

**Gofynnir i'r Bwrdd:-**

**2.1 Nodi a derbyn Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2020/21 (Atodiad 1).**

**2.2 Gymeradwyo Ffurflen Flynyddol Swyddogol y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2020/21 (amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol, sef 31 Mai 2021. Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-bwyllgor (Atodiad 2).**

**2.3 Gymeradwyo y trosglwyddiad o'r tanwariant o £241,023 i'r gronfa wrth gefn.**

**2.4 Glustnodi £4,853 o'r llog a dderbyniwyd ar y grant o £16m yn erbyn costau benthyca yn y dyfodol.**

## 3. Y Rhesymau dros y Penderfyniad

3.1 Rhoi gwybod i'r Cyd-bwyllgor am ei sefyllfa ariannol ar gyfer 2020/21 a chydymffurfio â'r gofynion statudol yn nhermau cwblhau'r Adroddiad Blynyddol.

## 4. Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

4.1 Bydd y cyfrifon a'r adroddiad yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilydd allanol Cyngor Gwynedd a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Pe byddai angen unrhyw newidiadau, caiff fersiwn diwygiedig ei gyflwyno i gyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 17 Medi 2021.

4.2 Yn dilyn yr archwiliad ac yn dilyn unrhyw newidiadau angenrheidiol, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r adroddiad cyn 30 Tachwedd 2021.

## 5. Gwariant ac incwm yn 2020/21

5.1 Mae Atodiad 1 yn dangos y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw ar gyfer 2020/21, ac mae hyn yn cyfateb â'r ffigyrau yn y Ffurflen Flynyddol a ddangosir yn Atodiad 2.

<u>Swyddfa Rheoli Portffolio</u>

5.2 £640,971 yw'r tanwariant terfynol dan y pennawd hwn. Mae cynnydd bychan yn y tanwariant ers yr adolygiad trydydd chwarter, yn bennaf oherwydd ad-daliad a dderbyniwyd gan Conwy ar gyfraniad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol a lleihad yng ngwariant ar y pennawd cynllunio, datblygu a chefnogi prosiectau.

<u>Gwasanaethau Cefnogol y Corff Atebol</u>

5.3 £28,815 yw'r tanwariant terfynol dan y pennawd hwn, o ganlyniad i ostyngiad yn y gwariant ar wasanaethau cefnogol y Corff Atebol (yr awdurdod lletya).

<u>Cyd-bwyllgor</u>

5.4 £7,076 yw'r tanwariant terfynol dan y pennawd hwn, sy'n deillio o danwariant ar y pennawd Bwrdd Cyflawni Busnes a gorwariant yn y pennawd cefnogaeth gyfreithiol allanol.

Prosiectau

5.5 Mae'r pennawd Prosiectau yn cynnwys gwariant ar eitemau sy'n cael eu hariannu gan grantiau penodol a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru a gyda gwariant ar y ddau prosiect cyntaf yn deillio o'u Hadolygiadau Gateway.

Cyfraniadau Ariannu

5.6 Roedd y prif ffrydiau incwm yn 2020/21 yn cynnwys cyfraniadau partneriaid, Grant ESF a grantiau bychan eraill a dderbyniwyd gan Llywodraeth Cymru. Yn ychwanegol, derbyniwyd ad-daliad Tîm Ymgysylltu ar gyfer 2019-20 ac mae'r llog a enillwyd ar falansau arian yn ystod y flwyddyn (yn cynnwys llog ar y grant o £16m a dderbyniwyd ym Mawrth) wedi ei gynnwys yn y cyfrifon.

Sefyllfa ariannol

5.7 Roedd y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2021 yn dangos tanwariant o £241,023 ac mae hwn wedi'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i roi cyfanswm o £738,552. Mae £415,000 o'r gronfa wrth gefn yma eisoes wedi ei glustnodi fel rhan o gyllideb 2021-22 a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar 26 Mawrth 2021.

Ffurflen flynyddol

5.8 Derbyniwyd y llythyr Dyfarnu Cyllid ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru yn Chwefror 2021, ac yna derbyniwyd y taliad grant o £16m ar 12 Mawrth 2021. Mae'r grant cyfalaf yma yn cael ei ddangos fel credydwr ar y Datganiad o Falansau ar y Ffurflen Flynyddol ar 31 Mawrth 2021, a bydd ar gael i ariannu y rhaglen gyfalaf yn 2021/22 unwaith mae'r achosion busnes terfynol wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

6.1 Noda Adran 12 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 bod Cyd-bwyllgor o ddau neu fwy o awdurdodau (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 y Ddeddf yn mynnu bod y cyrff hyn yn cynnal cyfrifon sy'n ddarostyngedig i archwiliad gan archwilydd allanol a gymeradwyir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

6.2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018 yn mynnu bod yr holl Gyd-bwyllgorau yn paratoi cyfrifon diwedd blwyddyn. Os yw'r trosiant yn llai na £2.5m, pennir bod y Cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor bach" a rhaid paratoi ffurflen flynyddol yn unol ag arferion priodol fel yr amodir drwy ddeddfwriaeth. Rydym wedi trafod gyda'r archwilwyr, a gan bod y trosiant yn y ddwy flynedd ariannol flaenorol yn llai na £2.5m ac nad yw'r grant cyfalaf o £16m yn cyfrannu at y trosiant blynyddol eleni, nid yw'n angenrheidiol cwblhau datganiad cyfrifon llawn nes 2021-22 pan fydd y gwariant cyfalaf yn cychwyn.

**7. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

7.1 Adroddwyd sefyllfa'r tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2020/21 i'r Grŵp Gweithredol ar 30 Ebrill 2021.

**8. Atodiadau**

Atodiad 1 - Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw ar gyfer 2020/21.

Atodiad 2 – Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021 (amodol ar Archwiliad Allanol), ond sy'n cynnwys sylwadau Archwilio Mewnol.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Corff Atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn â phriodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol - Corff Atebol:**

Awdur yr adroddiad hwn.